
PRIF BWYLLGOR CRAFFU, 29.03.12

Yn bresennol: Y Cynghorydd Keith Marshall (Cadeirydd);

Y Cynghorwyr:- Anwen Davies, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, John Gwilym Jones, Dewi Llewelyn, Dafydd Meurig a Gareth Thomas.

Arweinyddion Portffolio: Y Cynghorwyr Dyfed Edwards a Siân Gwenllian; Y Cynghorydd R.H.Wyn Williams (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen yn unig).

Hefyd y Cynghorydd Peter Read (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen yn unig fel Cadeirydd y Gweithgor Craffu Gofal).

Hefyd yn Bresennol: Harry Thomas (Prif Weithredwr), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Gareth James (Rheolwr Craffu a Gweithredol), Gareth Williams (Rheolwr Cyfrif Effeithlonrwydd) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Alwyn Gruffydd, Trevor Roberts a Dyfrig Siencyn.

1. PROFEDIGAETH

Cydymdeimlwyd â Dilys Phillips, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, ar farwolaeth ddiweddar ei thad.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2012 fel rhai cywir.

4. ADRODDIAD TERFYNOL GWEITHGOR TREFNIADAU CRAFFU GWAITH PARTNERIAETHOL

Arweinydd Portffolio: Y Cynghorydd Dyfed Edwards

- (a) Cyflwynwyd - adroddiad y Cynghorwyr Dewi Llewelyn a Gareth Thomas, cynrychiolwyr y pwyllgor hwn ar y Gweithgor Trefniadau Craffu Gwaith Partneriaethol a sefydlwyd i baratoi model manwl ar gyfer craffu gwaith partneriaethol Gwynedd a Môn. Gofynnwyd i'r pwyllgor graffu'r model craffu ar y cyd ynghyd â gwaith ac argymhellion y gweithgor.
- (b) Wrth gyflwyno'u hadroddiad, pwysleisiodd y ddau aelod:-
 - (i) bod y gweithgor o'r farn mai sicrhau'r canlyniadau cywir oedd y ffactor llwyddiant pwysicaf o safbwynt y craffwyr.

- (ii) bod angen mesur y buddion o gydweithio.
- (iii) ar ryw bwynt, byddai'n rhaid penderfynu pa ddulliau craffu i'w defnyddio.
- (iv) bod angen sicrhau bod y targedau a'r allbynnau wedi'u gosod allan yn glir ar y dechrau fel bod modd eu craffu ymhellach ymlaen.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Strategol a Gwella fod rhaid cydnabod bod yna newid mawr yn wynebu'r Cyngor hwn a Chyngor Ynys Môn a bod angen edrych dros y misoedd nesaf ar ddod â'r aelodau hynny o'r ddau gyngor fydd yn ymwneud â'r craffu ynghyd mewn rhyw ffordd cyn dechrau ar y gwaith craffu.

- (c) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

PENDERFYNWYD diolch i'r gweithgor am eu gwaith a derbyn y model craffu ynghyd ag argymhellion y gweithgor, sef:-

- (a) **Bod sicrhau atebolrwydd y gwasanaethau i aelodau a dinasyddion y ddwy sir ar wahân yn egwyddor sylfaenol, ac felly, yn gyffredinol, y dylid cadw at y drefn o graffu materion fesul sir gyda phwyslais pendant ar graffu'r hyn sydd wedi'i adnabod fel blaenoriaethau a'u gwireddu yn hytrach na'r drefn.**
- (b) **Bod lle i arbrofi ar graffu ar y cyd lle mae yna flaenoriaethau'n amlwg yn gyson ar draws y ddwy sir.**
- (c) **Y dylai'r gwaith craffu felly ddilyn y patrwm a ganlyn i ddechrau:-**
 - (i) **Y ddwy drefn craffu sirol i graffu a herio pa flaenoriaethau y mae'r Bwrdd newydd yn ei ddewis yn ystod hanner olaf 2012/13.**
 - (ii) **Ar gyfer 2013/14 y dylai'r trefniadau craffu sirol ystyried ac adnabod blaenoriaethau penodol i'w craffu'n sirol yn unol â threfniadau craffu'r ddau gyngor.**
 - (iii) **Bod y ddwy gyfundrefn craffu sirol yn cytuno ar o leiaf un mater, sydd yn amlwg yn flaenoriaeth ar draws y ddwy sir, er mwyn treialu trefn craffu ar y cyd i asesu ei effeithiolrwydd.**

5. GWERTHUSIAD O FONITRO PERFFORMIAD DRWY WEITHGOR Arweinydd Portffolio: Y Cynghorydd Dyfed Edwards

- (a) Cyflwynwyd - adroddiad y Cynghorydd Margaret Griffith, Cadeirydd y Gweithgor Gwella Monitro Perfformiad, yn cyflwyno gwerthusiad o fonitro perfformiad drwy weithgor ac yn gofyn i'r pwyllgor graffu casgliadau ac argymhellion y gweithgor.
- (b) Diolchodd y Cynghorydd Margaret Griffith i'r Rheolwr Craffu a Gweithredol a'r Swyddog Craffu Cynorthwyol am baratoi'r adroddiad ar ei rhan.
- (c) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at y prif faterion a ganlyn:-
 - (i) Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Strategol a Gwella nad oedd y system Ffynnon wedi bod ar gael i aelodau hyd yma am resymau technegol ond y bwriedid rhoi blaenoriaeth i ddatrys hynny.
 - (ii) Canmolodd y Cadeirydd waith trylwyr y gweithgor a'r camau a gymerwyd i gynnwys gweddill aelodau'r pwyllgor ymhob cam o'r drefn gan fynegi ei obaith y gallai'r drefn honno fod yn fodel y gellir adeiladu arno i'r dyfodol.
 - (iii) Pwysleisiwyd pwysigrwydd argymhelliad 7.1 ar ddiwedd yr adroddiad oedd yn tanlinellu'r angen i ail edrych ar yr holl ddangosyddion, ac eithrio'r rhai sydd yn statudol, i sicrhau mesur y pethau cywir a chael gwerth allan o'r broses.

Mewn ymateb i'r sylw hwn, nododd y Pennaeth Strategol a Gwella y gofynnwyd i'r penaethiaid oll adolygu eu mesurau fel bod y ffocws ar y dinesydd o hyn allan.

- (iv) Nodwyd bod y gweithgor wedi llwyddo i fynd dan groen gwaith yr adrannau a bod y broses wedi gweithio'n effeithiol iawn gyda grŵp bychan o aelodau yn holi'r Arweinyddion Portffolio.
- (v) Gan gyfeirio at ail ran argymhelliad 7.2, oedd yn argymhell bod angen sicrhau bod yr aelodau yn deall mai'r Arweinyddion Portffolio sydd i'w dal i gyfrif ac yn gyfrifol am waith y penaethiaid a'u hadrannau, awgrymwyd bod angen i'r penaethiaid gwasanaeth ddeall hynny hefyd oherwydd, fel arbenigwyr yn eu maes, 'roedd perygl iddynt ateb cwestiynau ar ran yr Arweinyddion Portffolio.

Cytunwyd, fodd bynnag, bod angen i'r ddau ohonynt fod yn bresennol, gyda'r pennaeth adran wrth law i gynorthwyo'r Arweinydd Portffolio, yn unol â'r drefn mewn unrhyw fforwm democrataidd.

- (vi) Nododd y Cadeirydd y dylid cywiro'r fersiwn Saesneg o ran 5 o'r adroddiad i ddarllen "*The opinion of the following was sought on the arrangement of monitoring performance through a Working Group..*"

PENDERFYNWYD derbyn casgliadau ac argymhellion y Gweithgor, sef:-

- (a) Bod angen ail-edrych ar yr holl ddangosyddion ac eithrio'r rhai sydd yn statudol, i sicrhau mesur y pethau cywir.
- (b) Gan y bydd rôl y pwyllgorau craffu yn newid o dan y drefn llywodraethu newydd a'u gwaith yn canolbwyntio ar y dasg o alw'r Cabinet ac aelodau unigol y Cabinet i gyfrif a chraffu effaith penderfyniadau'r Cabinet a darpariaeth gwasanaeth, dylid sicrhau bod yr aelodau a'r penaethiaid gwasanaeth yn deall mai'r Arweinyddion Portffolio sydd i'w dal i gyfrif ac yn gyfrifol am waith y penaethiaid a'u hadrannau.
- (c) Bod rhaid sicrhau bod aelodau yn cael mynediad electronig at adroddiadau monitro perfformiad ar bob lefel gan eu bod eisiau gweld y llithriadau a'r perfformiad da sy'n digwydd.
- (ch) Cadarnhau'r hyn a gytunwyd yn y Prif Bwyllgor Craffu ar 9 Chwefror, 2012 ynglŷn â'r drefn craffu perfformiad i'r dyfodol gan nodi, pe adnabyddid materion perfformiad sydd angen rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn, mai trefn gweithgor yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r rôl hynny.

**6. ADRODDIAD CYNNYDD: STRATEGAETH ARBEDION 2010-2013
Arweinydd Portffolio: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

- (a) Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella yn gofyn i'r pwyllgor graffu cynnydd y Strategaeth Arbedion a rhoi cyfarwyddyd i'r rhan o'r Cyngor sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros gyflawni'r arbedion.
- (b) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Arweinydd Portffolio. Nododd fod y cynnydd o ran y gallu i wireddu'r arbedion yn gyffredinol bositif iawn ac y gwelwyd cynnydd o 70% i 82% yng nghyfanswm y cynlluniau £16m gydag asesiad Gwyrdd. Nododd hefyd fod y rhagolygon cychwynnol o ran gwireddu'r Cynlluniau Effeithlonrwydd 1% hefyd yn addawol iawn, gydag 86% o'r cynlluniau a gymeradwywyd gydag asesiad Gwyrdd, a diolchodd i bawb oedd yn ymdrechu'n galed iawn gyda'r maes yma.

- (c) Ategodd y Pennaeth Strategol a Gwella'r sylwadau hyn gan ychwanegu fod y trefniadau ar gyfer gwireddu'r arbedion yn cael cefnogaeth gan y penaethiaid oll a bod yma baroddrwydd i ymateb ac i gymryd perchnogaeth o'r materion hyn.
- (ch) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at y prif faterion a ganlyn:-
- (i) Holwyd sut 'roedd gweddill y staff yn ymateb i hyn. Atebodd y Pennaeth Strategol a Gwella fod arweinyddiaeth y penaethiaid yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd yn y maes. Ceisid fwyfwy i gynnwys pawb yn y datblygu a'r gwireddu ac 'roedd gan yr Arweinyddion Portffolio rôl allweddol i sicrhau'r gwireddu hefyd. Nododd hefyd bod rhaid derbyn bod rhai newidiadau yn mynd i effeithio ar unigolion.

Yna cyfeiriodd y Prif Weithredwr at rôl y Coleg Uwch Reolwyr a'r Coleg Rheolwyr Canol yn rhyngweithio ac yn rhannu syniadau ynglŷn â'r hyn sy'n mynd ymlaen yn y Cyngor. Cadarnhaodd fod ymateb y rheolwyr wedi bod yn bositif iawn i'r agenda yma a'u bod yn gwerthfawrogi'r broblem ac wedi ymateb yn aeddfed iawn. Ychwanegodd iddo gyfarfod â thua 250 o weithwyr rheng flaen y Cyngor yn ystod cyfres o gylchdeithiau o amgylch y sir ac y cyflwynwyd tua 30 o wahanol syniadau am arbedion gan y gweithwyr ymhob un o'r sesiynau hynny. 'Roedd y syniadau hyn, er yn fychan, yn bwysig ac yn creu'r meddylfryd y dymunid ei weld ar draws y busnes i gyd o chwilio'n barhaus am arbedion. Cyfeiriodd hefyd at lansiad y meddalwedd "*Syniad Da*" fyddai'n galluogi i staff ar draws y Cyngor gofrestru eu syniadau.

- (ii) Nodwyd bod yna dueddiad i hoelio sylw ar y cynlluniau Coch ac Ambr, ond bod angen llongyfarch y sawl sydd wedi bod yn gweithio ar y cynlluniau hynny a aseswyd yn Wyrdd. Nodwyd hefyd ei bod yn galonogol gweld bod arian pontio wedi'i ddarganfod mewn ymateb i lithriadau.
- (iii) Diolchwyd i'r swyddogion am eu harweiniad clir o ran yr arbedion dros y blynyddoedd diwethaf a nodwyd, er bod yna feirniadaeth annheg o'r Cyngor yn y wasg yn aml, 'roedd yn cael ei glodfori gan y bobl sydd o bwys.
- (iv) Mynegwyd pryder ynglŷn â'r methiant i daro'r nod gyda chynlluniau trawsadrannol a chynlluniau cydweithio gyda chynghorau eraill. 'Roedd pwysau ar y Cyngor i gydweithio a rhan o'r cydweithio hwnnw oedd darganfod arbedion. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Strategol a Gwella, o ran y cynlluniau hynny y dibynnir arnynt nawr o ran gwireddu, bod her i drosi'r newidiadau i mewn i arbedion ariannol. Cyfeiriodd yn benodol at y cynllun cydweithio yn y maes caffael gan egluro fod y cynghorau eraill wedi gwneud yn well na'r Cyngor hwn oherwydd bod Gwynedd yn caffael ychydig yn well eisoes. Ychwanegodd fod y swyddogion yn hyderus bod modd gwireddu'r cynlluniau hynny sydd dan reolaeth y Cyngor ei hun, ond gan fod y broses yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl am amrywiol resymau, ail-broffiliwyd y realiti yma wrth osod y Strategaeth Ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth.

Nododd y Prif Weithredwr nad oedd yr arbedion sy'n deillio o gydweithio ar draws y Gogledd yn ganran uchel o'r holl arbedion, a bod hynny'n fwriadol, gan fod arbedion o'r fath yn fwy anodd eu cyflawni gan fod gan y cynghorau unigol lai o ddylanwad uniongyrchol dros y sefyllfa. Nododd, fodd bynnag, bod yna brosiectau llwyddiannus yn mynd rhagddynt, ac fel enghraifft o hyn,

eglurodd fod Gwynedd wedi arwain prosiect ynglŷn â safoni'r fanyleb ar gyfer Technoleg Gwybodaeth, cyfrifiaduron personol a gliniaduron fyddai'n arbed £330,000 y flwyddyn. Nododd ymhellach, yn ogystal â syniadau ynglŷn â'r cyfeiriad strategol yn y tymor byr a chanolig, y ceisid hefyd edrych ar ddatblygu strategaeth ataliol ar gyfer y tymor hwy sy'n ystyried, nid yn unig yr ochr darparu, ond sut i amrywio'r gofyn am wasanaethau drwy ddylanwadu ar y ffordd mae pobl yn meddwl ac yn ymddwyn fel bod yna lai o alw am y gwasanaethau. Yna nododd iddo godi cwestiwn yng nghyfarfod Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ynglŷn â diffyg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, oherwydd y pryder, pe na fyddent yn cyflawni eu targedau, y byddent yn trosglwyddo mwy o gostau ar y ffin rhwng iechyd a gofal i'r cynghorau. Hefyd, pe bai'r byrddau iechyd yn methu ar y cyfan ar draws Cymru, byddai'r Gweinidogion yn symud arian o'r sector cynghorau i'r sector iechyd er mwyn llenwi'r bwlch. Ychwanegodd fod diffyg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn £90m erbyn canol Mawrth a'u bod yn bwriadu mabwysiadu cyllideb am fis yn unig.

Nododd aelod fod sefyllfa'r Bwrdd Iechyd yn loes calon i bobl a diolchodd i'r Prif Weithredwr am roi sylw blaengar i hyn.

- (v) Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Pennaeth Strategol a Gwella nad oedd yna unrhyw reswm pam na ellid gwireddu cynlluniau rhifau 9, 11 ac 14 yn rhestr arbedion 2012/13, sef Gwasanaethau Dydd – Pobl Hyn, Galluogi (2) – Cynyddu defnydd o'r Gwasanaeth Galluogi a Gofal Dydd Anabledau Dysgu.

Ychwanegodd yr Arweinydd Portffolio fod rhai o'r arbedion effeithlonrwydd yn ymwneud â thrawsffurfio gwasanaethau a bod Galluogi yn enghraifft o hynny. 'Roedd hynny'n cynnig cyfle, nid yn unig i greu arbedion, ond hefyd i ddarparu gwasanaeth mwy addas ar gyfer trigolion Gwynedd ac efallai bod angen cyflymu'r broses am y ddau reswm yma. Ychwanegodd fod yr arbedion technegol eu naws sy'n ymwneud â phrosesau mewnol y Cyngor, yn hytrach na phobl, yn eithaf rhwydd eu cyflawni. Fodd bynnag, 'roedd yna feysydd eraill sy'n gofyn am fwy o yriant a mwy o benderfyniad a chredai fod Galluogi yn enghraifft o hynny. O'r herwydd, 'roedd o'r farn y dylid anfon neges i'r Cyngor newydd fod angen cyflymu'r broses yma o foderneiddio ac o ddarparu gwasanaethau mwy addas i bwrpas sy'n galluogi i'r Cyngor fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

- (vi) Llongyfarchwyd y swyddogion ar eu dull proffesiynol ac arloesol o ymdrin â'r maes anodd hwn sydd wedi arwain at ddarganfod atebion ymarferol i'r bwlch ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Diolchwyd hefyd i'r staff am eu ffordd o ymdrin â'r broses yma.

PENDERFYNWYD

- (a) **Derbyn bod y cynnydd o ran y gallu i wireddu'r arbedion yn gyffredinol bositif iawn.**
- (b) **Cymeradwyo dwysau'r drefn o herio'r adrannau er sicrhau eu gallu i gyflawni'r arbedion yn llawn ac yn amserol.**

7. CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT, MESUR LLYWODRAETH LEOL 2011 Arweinydd Portffolio: Y Cynghorydd Stephen Churchman

- (a) Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn cyflwyno sylwadau ac ymateb y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau i ganllawiau statudol drafft mesur Llywodraeth Leol 2011. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad a chyflwyno argymhellion mewn ymateb i gynnwys y canllawiau.
- (b) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Gadeirydd y gweithgor, Y Cynghorydd Selwyn Griffiths. Yna nododd, gan mai'r Cyngor llawn sy'n penodi aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio, ei fod yn galw ar arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i geisio dewis yr enwau ymlaen llaw er mwyn arbed amser yn y Cyngor.
- (c) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at y prif fater a ganlyn:-

Gan gyfeirio at ymateb y gweithgor i'r canllaw ynglŷn ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor, sef cytuno â'r bwriad i gynnal arolwg a cheisio rhaglennu cyfarfodydd ar yr adegau sydd fwyaf cyfleus i fwyafrif yr aelodau, awgrymwyd mai dynion fyddai'n gwneud y penderfyniadau mewn gwirionedd gan fod merched yn y lleiafrif ar y Cyngor. 'Roedd amseroedd cyfarfodydd ayyb yn gallu gwneud gwahaniaeth i allu merched sydd â theuluoedd i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Gan hynny, awgrymid, yn y tymor byr, y dylid ystyried sut i gynorthwyo'r merched hynny fydd yn cael eu hethol i'r Cyngor newydd ym mis Mai, gan edrych, yn y tymor hwy, ar ddulliau o ddenu mwy o ferched i mewn i'r broses ddemocrataidd mewn ymgais i geisio sicrhau bod cydbwysedd y Cyngor yn adlewyrchu cydbwysedd cymdeithas.

Cytunodd y Prif Weithredwr â chyfeiriad y drafodaeth gan nodi fod grwpiau eraill o fewn y gymdeithas wedi'u tangynrychioli ar y Cyngor hefyd, megis pobl ifanc.

PENDERFYNWYD

- (a) **Derbyn sylwadau ac ymatebion y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau i ganllawiau statudol drafft Mesur Llywodraeth Leol 2011 fel a nodir ym mharagraffau 2 i 10 o'r adroddiad, ond gan ddiwygio'r ymateb i'r canllaw ynglŷn ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor i gyfeirio at yr angen i roi ystyriaeth hefyd i farn grwpiau lleiafrifol, megis merched a phobl ifanc, wrth raglennu cyfarfodydd.**
- (b) **Anfon yr ymatebion i ganllawiau statudol drafft Mesur Llywodraeth Leol 2011 at Lywodraeth Cymru erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 30 Mawrth, 2012.**
- (c) **Gofyn i'r Cyngor newydd ystyried ei gyfansoddiad o safbwynt aelodaeth i'r dyfodol gan ofyn hefyd i'r grwpiau gwleidyddol edrych ar ba gamau sydd eu hangen i sicrhau bod Cyfansoddiad y Cyngor yn adlewyrchu trawsdoriad o'r gymdeithas yn y sir.**

8. ADRODDIAD GWEITHGOR CRAFFU GOFAL Arweinydd Portffolio: Y Cynghorydd R.H.Wyn Williams

- (a) Cyflwynwyd - adroddiad y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd y Gweithgor Craffu Gofal, yn tynnu sylw at faterion perthnasol i'r Prif Bwyllgor Craffu o waith y Gweithgor yn craffu'r Bwrdd Rhaglen Gofal. Gofynnwyd i'r pwyllgor dderbyn, diwygio neu wrthod argymhellion y gweithgor.
- (b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at y prif faterion a ganlyn:-

- (i) Canmolwyd y gweithgor hwn ar y sail ei fod yn gwneud gwaith craffu eithriadol o dda a chaled a galwyd am iddo barhau yn y Cyngor newydd. Nodwyd hefyd bod y Cynghorydd Margaret Griffith wedi bod yn aelod hynod weithgar o'r gweithgor ac y byddai colled mawr ar ei hôl wedi iddi sefyll i lawr o'r Cyngor ym mis Mai.
- (ii) Gan gyfeirio at baragraff 5.4 o'r adroddiad, nododd y Cadeirydd y byddai materion weithiau'n dod i sylw aelodau'r gweithgor wrth gwestiynu'r Arweinydd Portffolio neu swyddog ar faterion nad oedd yn amlwg o'r adroddiad ac y byddai'r drafodaeth wedi bod yn fwy ystyrion petai'r gwaith papur wedi bod yn llawnach. 'Roedd y Cynllun Comisiynu Plant a Theuluoedd yn enghraifft o hyn gan nad oedd y gweithgor wedi gallu canfod yn syth bod y cynllun hwn yn rhedeg ar ôl amser. Mewn ymateb, nododd Cadeirydd y Gweithgor fod y gweithgor wedi gofyn am y cynllun hwn droeon ers 2008, ond y darganfuwyd yn ddiweddarach nad oedd rhaid ei gwblhau tan Fedi 2012. Gan hynny, nid oedd yn gymaint o lithriad ag y tybiwyd yn wreiddiol.

Ychwanegodd yr Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad braidd yn hwyr oherwydd salwch hir dymor yn bennaf, ond oherwydd yr oedi, llwyddwyd i gael dogfen llawer gwell a mwy taclus yn y pen draw. Byddai'r cynllun allan yn nechrau tymor y Cyngor newydd.

- (iii) Cyfeiriodd yr Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol at y mater a gododd y Prif Weithredwr o dan eitem 6 uchod ynglŷn â diffyg y Bwrdd Iechyd a'r pwysau tebygol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol gan roddi sicrwydd i'r aelodau y byddai ef a Chadeirydd y Gweithgor yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod y Grŵp Cyswllt gydag Ysbyty Bryn Beryl y pnawn hwnnw.
- (iv) Diolchodd yr Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol i'r gweithgor am eu cydweithrediad gan nodi y bu o gymorth mawr i'r adran bod yna weithgor yn bodoli sy'n mynd dan groen pob pwnc. Nododd fod y Cynghorydd Margaret Griffith, yn arbennig, wedi bod dan groen llawer o bynciau, a diolchodd iddi am ei chyfraniad a'i chydweithrediad bob amser.
- (v) Nodwyd bod y gweithgor bellach yn craffu'r Bwrdd Rhaglen Gofal fel math o arbrawf, ond pwysleisiwyd, petai'r model yn cael ei ehangu i graffu gwaith y byrddau rhaglen eraill y dylid sicrhau bod yna hefyd swyddog â throsolwg o holl faterion y gwasanaeth yn gyswllt rhwng y Bwrdd Rhaglen a'r gweithgor sy'n cyfateb iddo. Mewn ymateb, atgoffodd y Pennaeth Strategol a Gwella'r aelodau o'r trefniadau a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli perfformiad yn y Cyngor newydd gan gadarnhau y byddai yna swyddog penodol ar gael i roi cymorth annibynnol ac arbenigol i'r aelodau i wneud yr adolygiadau.

PENDERFYNWYD

- (a) **Bod angen i gynlluniau'r Bwrdd Rhaglen fod yn ddigon eglur i aelodau fedru craffu ar gynnydd neu ddiffyg cynnydd yn erbyn buddiannau clir a phendant.**
- (b) **Bod angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd Rhaglen i ganolbwyntio mwy ar:**
 - (i) **Adnabod risgiau gan sicrhau defnydd llawn o'r Log Risgiau sydd gan bob rhaglen;**
 - (ii) **Rhoi camau rheoli risg priodol mewn lle.**
- (c) **Bod angen parhau i wella trefniadau ymgysylltu o safbwynt:**
 - (i) **Rhannu gwybodaeth gyfoes gydag aelodau;**
 - (ii) **Cadw'r Trydydd Sector a budd-ddeiliaid allweddol eraill yn y pictiwr.**

- (ch) Bod angen trefn dilyniant ac adrodd yn ôl clir i aelodau ar gwestiynau a materion o bryder sy'n cael eu nodi.**
- (d) Bod angen arweiniad cadarn ar sut i gynnal Cynllun Iaith y Cyngor mewn gwaith partneriaethol.**

Ar derfyn y cyfarfod, nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod diwethaf y Prif Bwyllgor Craffu cyn yr etholiad a diolchodd yn arbennig i swyddogion yr Uned Craffu am eu gwaith caled a'u harweiniad dros y bedair blynedd ddiwethaf. Diolchodd hefyd i'r Uned Bwyllgorau am weinyddu'r pwyllgorau.

Diolchodd yr aelodau i'r cadeirydd am lywio'r cyfarfodydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.45pm.